



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

Dyddiad: 17 Medi 2014

Ymgynghoriad ar y Gyfarwydeb Atebolrwydd Amgylcheddol.  
Y Gangen Polisi Morol,  
Llywodraeth Cymru,  
Parc Cathays,  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Annwyl Syr,

**Ymgynghoriad ar ddiwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) 2009 yng  
Nghymru a Lloegr  
er mwyn trosi Erthygl 38 o Gyfarwydeb Diogelwch ar y Môr 2013**

**Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) 2009 er mwyn trosi gofynion Erthygl 38 o Gyfarwydeb Diogelwch ar y Môr (OSD) 2013 yn ddeddfwriaeth ddomestig.

Rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i gyflwyno polisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu defnyddio'n gynaliadwy a'u gwella'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol. Mae gennym ddull ecosystem o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar dir a môr sy'n arwain at fuddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rydym yn croesawu'r newidiadau sydd yn yr ymgynghoriad hwn fel mecanwaith pwysig i helpu i gyflawni Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Credwn y bydd y Gyfarwydeb hon yn ysgogydd hollbwysig i gael datblygu cynaliadwy yn y dyfroedd morol o amgylch Cymru a gweddill y DU. Isod ceir ein hymatebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Byddem yn ateb y cwestiynau penodol a godwyd gan yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

***Cwestiwn 1: a oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffordd y cynigiwn drosi Erthygl 38 o'r Gyfarwydeb Diogelwch ar y Môr fel ag yr amlinellwyd?***

Rydym yn croesawu'r dull a gynigir i drosi gofynion Erthygl 38 o'r Gyfarwyddeb Gwaith Olew a Nwy ar y Môr drwy ehangu cwmpas daearyddol y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol, i gynnwys difrod i ddyfroedd y môr mawr fel ag y'i diffiniwyd yng Nghyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (2008/56/EC). Drwy alinio'r diffiniadau yn y cyfarwyddebau hyn, bydd llai o ddrysych a pherygl o amwysedd i ddalwyr trwydded a rheoleiddwyr fel ei gilydd.

***Cwestiwn 2: a oes gennych farn ynghylch a yw'r diffiniad o weithredwr o dan y Rheoliadau Difrod Amgylcheddol yn cynnwys dalwyr trwydded yn ddigonol yn y diwydiannau olew a nwy ar y môr, fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb? Os nad yw, eglurwch eich rhesymau.***

Ni hoffem wneud newidiadau i'r diffiniad presennol o "weithredwr" fel ag y manylir arno yn y Rheoliadau Difrod Amgylcheddol sydd mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar weithrediad presennol y rheoliadau hyn. Serch hynny byddem yn croesawu'r cynnig i ymestyn y diffiniad o "weithredwr" i ystyried yn benodol y trefniadau ar y môr o safbwynt gweithredwyr a dalwyr trwydded olew a nwy, fel ag sy'n ofynnol gan Erthygl 7 o'r OSD.

***Cwestiwn 3: a oes gennych unrhyw farn am debygolrwydd difrod posibl yn nyfroedd y môr mawr sy'n effeithio ar eu statws amgylcheddol fel ag y'i diffinnir o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD)?***

Rydym yn cytuno â chanfyddiadau'r Asesiad Effaith gwreiddiol er mwyn trosi'r Rheoliadau Atebolrwydd Amgylcheddol sy'n nodi y gallai nifer o weithgareddau achosi difrod yn yr amgylchedd morol. Mae'n fwy anodd trosi'r posibilrwydd hwn o greu difrod i ddeall y posibilrwydd o ddifrod i Statws Amgylcheddol Da o dan yr MSFD o ystyried y raddfa sy'n ofynnol i gyrraedd y Statws. Bydd dealltwriaeth o raddfa'r effaith ar statws yr 11 disgrifydd i'r MSFD yn datblygu dros amser wrth i'n dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth hon gynyddu.

Er ein bod yn cytuno mai anaml iawn y dylai difrod amgylcheddol sylweddol (ar lefel a fyddai'n ardaro â'r gofyniad i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da ein dyfroedd morol) ddigwydd yn yr amgylchedd morol ar y môr, rydym yn cytuno hefyd y bydd heriau sylweddol o safbwynt monitro, darganfod a gorfodi difrod ar y môr. Eto i gyd, credwn ei bod yn bwysig fod pwrpas yr MSFD yn cael ei gydnabod o fewn cyd-destun y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol a bod yna fecanwaith i orfodi yn erbyn difrod posibl gan weithgareddau ar y môr ar statws y môr mawr fel ag y'i diffinnir o dan yr MSFD.

***Cwestiwn 4: yn eich tyb chi, beth yw'r costau posibl i'r diwydiant pe bai difrod o ddyfroedd morol yn digwydd sy'n arwain at weithredu o dan y Rheoliadau diwygio?***

Cwestiwn i'r Diwydiant ei ystyried yw hwn yn bennaf. Fodd bynnag, byddem yn pwysleisio'r angen i edrych ar y corff o waith sy'n bodoli sydd yn trafod prisio nwyddau a gwasanaethau'r ecosystem yn yr amgylchedd morol, fel bod effaith economaidd iawn y difrod i ecosystemau morol yn cael ei hymgorffori yn y costau hyn.

***Cwestiwn 5: a oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynnig i drosi Erthygl 38 o'r Gyfarwyddeb Diogelwch ar y Môr?***

Nid oes gennym sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar yr ymgynghoriad hwn.

Mae CNC yn fodlon i'r ymateb hwn fod ar gael i'r cyhoedd.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Hyderaf y bydd y sylwadau hyn o gymorth i chi. Os oes gennych ymholiadau pellach sy'n gysylltiedig â'n sylwadau, cysylltwch â Simon Neale, [simon.neale@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:simon.neale@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Isobel Moore', written in a cursive style.

**Isobel Moore**  
**Pennaeth Rheoleiddio Busnes ac Economeg**